Arolwg partneriaid a rhanddeiliaid - canllawiau ar gyfer yr awdurdod lleol

Cynhelir yr arolwg yn gynnar yn y broses gydadolygu, pan mae'r tîm yn ceisio cael darlun bras o'r gwasanaethau cymdeithasol a sut maent yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Mae'n cynnig cyfle i'r grwpiau hyn wneud sylwadau, o'u persbectif nhw, ynghylch ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol a'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn rheoli'r agenda gofal cymdeithasol.

Dim ond un o'r ffyrdd a ddefnyddir i gael yr wybodaeth hon yw'r arolwg. Mae'r tîm cydadolygu yn ceisio ategu tystiolaeth o'r arolwg drwy ei chymharu â deunydd sy'n dod o ffynonellau eraill megis cyfweliadau, cyfarfodydd a dadansoddi dogfennau.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy'r holiadur ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid er mwyn:

- deall yn well beth yw'r materion allweddol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol;
- adnabod meysydd i ymchwilio ymhellach iddynt;
- darparu tystiolaeth wrth wneud dyfarniad.

Yr holiadur

Mae i'r holiadur dair rhan.
Rhan 1 - Ynghylch y gwasanaethau cymdeithasol fel sefydliad
Rhan 2 - Ynghylch darparu gwasanaethau cymdeithasol
Rhan 3 - Argraffiadau cyffredinol

Ym mhob un o'r tair adran, gofynnir i ymatebwyr dicio blychau wrth ymateb i ddatganiadau. Mae yna ofod ar gyfer sylwadau ychwanegol, efallai ynghylch meysydd lle mae perfformiad yn arbennig o dda neu lle mae yna bryderon.

Cynnal yr arolwg

Trafodir sut y bydd yr arolwg yn cael ei gynnal yng nghyfarfod cynllunio'r adolygiad (Wythnos 3 yr adolygiad). Mae'r awdurdod lleol yn argymell rhestr o bobl a ddylai dderbyn holiadur er mwyn cytuno arni gyda'r adolygydd arweiniol. Bydd y rhestr yn cynnwys ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid, yn cynnwys:

- sefydliadau a gynrychiolir ar grwpiau cynllunio strategol, yn cynnwys cyrff statudol eraill (megis byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG, y gwasanaeth heddlu ac ati) a chyrff gwirfoddol (yn cynnwys y cyngor gweithredu gwirfoddol lleol);
- darparwyr gofal cymdeithasol o bwys yn lleol (yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector annibynnol a chyrff gwirfoddol);
- grwpiau eirioli;
- adrannau eraill o'r awdurdod lleol sy'n gweithio'n agos â'r gwasanaethau cymdeithasol i gyflawni amcanion allweddol (megis tai ac addysg).

Dosberthir yr arolwg partneriaid a rhanddeiliaid gan y tîm cydadolygu (Wythnos 6 y cydadolygiad). Gellir gwneud hyn yn electronig neu drwy ddefnyddio fersiwn papur. Efallai y byddwch yn dymuno cynnwys llythyr yn annog pobl i gyfranogi. Dychwelir holiaduron wedi'u cwblhau yn syth at y tîm cydadolygu o fewn pedair wythnos ar ôl eu dosbarthu. Caiff yr holiaduron eu dadansoddi a'u trafod gyda'r awdurdod lleol yn ystod y cydadolygiad. Gall y tîm cydadolygu gynnwys dyfyniadau dienw yn yr adroddiad a gyhoeddir, wedi'u cymryd o unrhyw rai o'r ffynonellau gwybodaeth, yn cynnwys yr holiadur hwn.